CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 14 Mai 2019 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Meirick Davies (Is-Gadeirydd), Hugh Evans, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott (Cadeirydd), Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Graham Timms, Joe Welch, David Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Uwch Swyddog Cynllunio (LG), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Gareth Davies, Peter Arnold Evans, Bobby Feeley, Martyn Holland, Pat Jones, Julian Thompson-Hill, Cheryl Williams ac Eryl Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghr. Tina Jones a Paul Penlington gysylltiad personol ag eitem 7, sef Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych – Y Strategaeth a Ffefrir Ddrafft.

3 PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Gofynnodd y Cadeirydd sy'n ymddeol, y Cyng. Peter Scott, am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2019/2020.

Cynigiodd y Cyng. Rhys Thomas y dylid penodi'r Cyng. Meirick Lloyd Davies yn Gadeirydd.

Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Ann Davies.

Ni chafwyd enwebiadau pellach, ac yn dilyn pleidlais drwy godi dwylo cafodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies ei ethol yn unfrydol i fod yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2019/2020.

Rhoddodd y Cadeirydd sy'n ymddeol araith fer a bu'n adlewyrchu ar ei gyfnod fel Cadeirydd yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Diolchodd i'r Cyng. Meirick Lloyd Davies a'i wraig Nesta am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolchwyd hefyd i'r swyddogion a'r staff am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Eleri Woolford (Rheolwr Cefnogi a Datblygu Aelodau), Sue License (Cymhorthydd Personol i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd), a Sharon Evans (Cydlynydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd) am eu gwaith a'u cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

Roedd y Cadeirydd sy'n ymddeol wedi casglu £14,500 i'w elusen ddewisol, sef Hosbis Sant Cyndeyrn.

Derbyniodd Laura Parry y siec ar ran Hosbis Sant Cyndeyrn gan egluro bod yr hosbis ar hyn o bryd yn cynnal prosiect gwerth £3 miliwn i gefnogi mwy o bobl yn y gymuned. Diolchodd am yr holl gefnogaeth a roddwyd a dywedodd y bydd yr arian yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r Hosbis.

Dymunodd y Cadeirydd sy'n ymddeol yn dda i'r Cadeirydd newydd a chyflwynodd y Gadwyn Swydd iddo. Llofnododd y Cadeirydd newydd y Datganiad Derbyn Swydd.

Enwodd y Cadeirydd newydd ei wraig, Nesta Davies, fel ei gydymaith.

Elusennau'r Cadeirydd newydd yw:-

- Breast Cancer UK
- Prostate Cancer UK

4 PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd.

Cynigiodd y Cyng. Joan Butterfield y dylid penodi'r Cyng. Alan James yn Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2019/2020. Cyfeiriodd at brofiad eang y Cyng. James.

Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Barry Mellor.

Ni chafwyd enwebiadau pellach, ac yn dilyn pleidlais drwy godi dwylo, cafodd y Cyng. Alan James ei ethol yn unfrydol i fod yn Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2019/2020.

Arwisgodd y Cadeirydd y Cyng. Alan James gyda Chadwyn Swydd yr Is-Gadeirydd a llofnododd yr Is-Gadeirydd newydd y Datganiad Derbyn Swydd.

Enwodd yr Is-Gadeirydd newydd ei wraig, Win Mullen-James, fel ei gydymaith.

Bu i'r Arweinydd, Arweinwyr Grŵp ac Aelodau gydnabod gwaith y Cadeirydd sy'n ymddeol dros y deuddeng mis diwethaf a llongyfarch y Cynghr. Meirick Lloyd Davies ac Alan James ar gael eu hethol yn Gadeirydd ac yn Is-Gadeirydd yn y drefn honno.

Yn y fan hon (10.30 a.m.) cafwyd egwyl o 20 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.50 a.m.

5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

6 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn ar 28 Mawrth 2019.

PENDERFYNWYD *cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2019 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

7 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD SIR DDINBYCH - STRATEGAETH A FFEFRIR DDRAFFT

Datganodd y Cyng. Tina Jones gysylltiad personol gan ei bod yn berchen ar ddarn o dir ym Mhrestatyn.

Datganodd y Cyng. Paul Penlington gysylltiad personol gan fod ei fam-yng-nghyfraith yn berchen ar ddarn o dir o fewn y CDLl.

Cyflwynodd y Cyng. Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy, yr adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) sy'n cyflwyno argymhellion y Grŵp Cynllunio Strategol a'r Cabinet ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir y CDLl Newydd a cheisiodd dderbyn cymeradwyaeth i ymgynghori ar y Strategaeth Ddrafft.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Holodd y Cyng. Tony Flynn pam nad yw Cynghorwyr Tref wedi eu hysbysu. Eglurwyd fod tair sesiwn alw heibio wedi ei chynnal ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned er mwyn iddynt gael cyfle i fod yn rhan o'r broses ar gam cynnar. Os yw'r Cyngor yn cymeradwyo'r argymhellion bydd rhagor o ymgysylltu â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn ystod y broses ymgynghori.
- Cadarnhaodd y Cyng. Graham Timms bod yr holl Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned wedi cael gwybod am y cyfarfodydd a bod Cynghorwyr Sir wedi derbyn dogfennau drwy gydol y broses. Mynegodd y Cyng. Timms bryder nad oedd yr Aelod Arweiniol, y Cyng. Brian Jones, wedi cefnogi'r proses na'r CDLl ac nad oedd wedi cynnig yr argymhelliad yn ystod cyfarfod y Cabinet.
- Yn ystod y cyfarfod Cabinet hwn roedd y gweddarlledu wedi stopio oherwydd problem gyda'r ffrwd rhyngrwyd allanol; roedd y broblem hon y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ac wedi effeithio ar ardal eang.

- Cyfeiriwyd at dir at ddibenion diwydiannol a chadarnhawyd y bydd y manylion yn cael eu hystyried mewn mwy o fanylder yn dilyn y cyfnod ymgynghori.
  Unwaith eto, eglurwyd mai pwrpas yr adroddiad a gyflwynir i'r Aelodau yw derbyn cymeradwyaeth y Cyngor i ymgynghori ynghylch y strategaeth ddrafft.
- Soniwyd am yr elfennau a fyddai'n cael eu heffeithio arnynt gan y CDLl:
  - Y Gymraeg – ceir polisi iaith a bydd digon o gyfleoedd i graffu ar yr elfen iaith.
  - Tai fforddiadwy – ceir diffiniad o dai fforddiadwy ym mharagraffau 8-10. Bydd angen edrych ar bob ardal benodol o fewn y sir er mwyn cael cydbwysedd.
    Byddwn yn edrych yn fanylach ar hyn yn ystod cam nesaf y cynllun.
  - Cyflogaeth – ceir gofyniad i ganfod beth fyddai'n briodol ymhob lleoliad ac unwaith eto, byddai hynny'n cael sylw ar gam nesaf y cynllun.
- Siaradodd y Cyng. Richard Mainon am y CDLl blaenorol o gymharu â'r CDLl arfaethedig o ran Bodelwyddan.
  Mynegodd ei anfodlonrwydd â'r CDLl arfaethedig.
- Tai Cymdeithasol – Dywedodd yr Uwch Swyddog Cynllunio fod tai cymdeithasol y tu allan i'w harbenigedd, ond y byddai'n dibynnu ar gyllid gan y Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru.
- Fel rhan o'r paratoadau i lunio CDLl i'w archwilio gan y cyhoedd, byddai fframwaith monitro effeithiol a phriodol yn cael ei ddatblygu a'i gynnwys o fewn y cynllun a byddai'n ffurfio sail ar gyfer llunio'r Adroddiad Monitro Blynyddol.
  Yr Adroddiad Monitro Blynyddol fyddai'r prif ddull ar gyfer mesur ac asesu'r cynnydd wrth weithredu polisïau a chynigion y CDLl Newydd.
- Mae'r cynllun yn destun gwerthusiadau cynaliadwyedd a rheoliadau cynefinoedd i sicrhau bod yr effaith amgylcheddol cyn lleied â phosibl.

Yn y fan hon, gofynnodd y Cyng. Joan Butterfield am bleidlais wedi ei chofnodi.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd fod yn rhaid i o leiaf un rhan o chwech o'r aelodau sy'n bresennol gytuno i gael pleidlais wedi ei chofnodi. Bu i fwy nag un rhan o chwech o'r aelodau gytuno â'r bleidlais wedi ei chofnodi.

Cyn cynnal y bleidlais, gofynnodd y Cyng. Anton Sampson am egwyl fer i'r grwpiau gwleidyddol drafod. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Ann Davies, ac roedd pawb yn gytûn.

Yn y fan hon (11.45 a.m.) cafwyd egwyl o ddeg munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.55 a.m.

Gofynnodd y Cyng. Sampson am sicrwydd y bydd y mater yn cael ei graffu arno ymhellach.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, yn dilyn yr ymgynghoriad wyth wythnos, y bydd yr ymatebion yn cael eu cyflwyno, eu dadansoddi a'u hadrodd wrth y Grŵp Cynllunio Strategol. Bydd yr ymatebion wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn.

Cafwyd pleidlais wedi ei chofnodi, fel a ganlyn:

O blaid yr argymhellion a geir yn yr adroddiad – y Cynghr. Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Meirick Lloyd Davies, Hugh Evans, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James, Tina Jones, Huw Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Peter Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Glenn Swingler, Tony Thomas, Rhys Thomas, Graham Timms, Joe Welch, David Williams, Huw Williams, Emrys Wynne, a Mark Young.

Yn erbyn yr argymhellion a gwir yn yr adroddiad – y Cynghr. Tony Flynn, Rachel Flynn, Richard Mainon, Christine Marston, Peter Scott, ac Andrew Thomas.

Ymatal – Y Cyng. Brian Jones.

O blaid – 32
Yn erbyn – 6
Ymatal – 1

Felly:

PENDERFYNWYD *bod y Cyngor yn:*

(i) Cymeradwyo Strategaeth a Ffefrir Ddrafft y CDLl Newydd (Atodiad 2) ar gyfer ymgynghori;

(ii) Awdurdodi'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i wneud newidiadau gramadegol a mân newidiadau i eiriad Strategaeth a Ffefrir Ddrafft y CDLl a all fod angen eu gwneud cyn yr ymgynghoriad i sicrhau cysondeb gyda sail dystiolaeth y CDLl a Pholisi Cynllunio Cymru (10fed Argraffiad, Rhagfyr 2018);

(iii) Cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Sesiynau Briffio (a gylchredwyd ymlaen llaw).

Cadarnhawyd y bydd cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn cael ei gynnal ar 30 Mai 2019 i drafod y Model Darparu Amgen ar gyfer Hamdden.

Bydd y sesiwn friffio nesaf i'r Cyngor yn cael ei chynnal ar 3 Mehefin 2019.

PENDERFYNWYD, *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a'r Sesiynau Briffio.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.